**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Apeliadau a Dyfarniadau

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mawrth, 26 Ionawr 2021 am 10.30 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd D W W Thomas (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| J E Burtonshaw | J A Hale | J W Jones |
| H M Morris | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Claire Abraham | Dirprwy Reolwr Swyddog Derbyniadau |
| Charlotte Bellis-Williams | Gweithredydd Cyfreithiol |
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Melisa Perry | Cyfreithiwr Dan Hyfforddiant |
| Cath Swain | Rheolwr Trafnidiaeth Integredig |
| Stephanie Williams | Prif Gyfreithiwr |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorydd(wyr): J P Curtice

---

## 29 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol gan aelodau.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 30 Cofnodion.

Penderfynwyd cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Apeliadau a Dyfarniadau a gynhaliwyd ar 18, 20 a 24 Tachwedd 2020 fel cofnod cywir.

## 31 Gwahardd y cyhoedd.

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad(au).

Ystyriodd y pwyllgor brawf budd y cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle roedd prawf budd y cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol ar yr agenda.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 32 Apêl Cludiant i'r Ysgol.

Clywodd y Pwyllgor apêl gan riant y disgybl a amlinellwyd yn yr adroddiad.

Cyflwynwyd yr apêl yn erbyn penderfyniad yr adran mewn perthynas â'r hawl am gludiant am ddim o'i gyfeiriad cartref i ysgol yn Sir Gâr.

Cyflwynodd mam-gu/tad-cu y disgybl sylwadau llafar i'r Pwyllgor i gefnogi'r cyflwyniadau ysgrifenedig ac amlinellodd amgylchiadau penodol eu hapêl a oedd yn ymwneud â sefyllfa'r plentyn a'r teulu a materion a oedd yn ymwneud â'r adeg pan symudodd y teulu dŷ ym mis Ionawr 2020.

Dywedasant eu bod yn barod i fynd â'r plentyn i'r man gadael a thalu am gostau'r cludiant pe gellid sicrhau lle ar y bws ysgol cywir.

Gwnaeth swyddogion yr adrannau Addysg a Chludiant sylwadau llafar hefyd i gefnogi'u cyflwyniadau ysgrifenedig, gan fanylu ar y polisïau presennol sy'n ymwneud â chludiant i ysgolion y dalgylch, a'r sefyllfa sy'n gysylltiedig â COVID yn y ddau awdurdod mewn perthynas ag atal cynnig seddi sbâr ar gludiant i'r ysgol.

Gofynnodd aelodau'r pwyllgor gyfres o gwestiynau i'r apelwyr a'r swyddogion a ymatebodd yn unol â hynny.

Nodwyd Darpariaeth Statudol ac Arweiniad Gweithredol Teithio gan Ddysgwyr Llywodraeth Cymru a Pholisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol Dinas a Sir Abertawe yn yr atodiad i'r adroddiad.

Ystyriodd y Pwyllgor yr holl gyflwyniadau llafar ac ysgrifenedig yn llawn.

**PENDERFYNWYD**

1) gwrthod yr apêl ar ran y disgybl a amlinellir yn yr adroddiad.
2) dweud wrth y rhieni, o ystyried amgylchiadau'r achos, y dylent hefyd ystyried gwneud apêl i Gyngor Sir Caerfyrddin.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.20 am

**Cadeirydd**